

Trwy ebost

05/10/2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i BGC Caerffili

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod ein sgysiau rheolaidd gyda'ch swyddogion cynorthwyol a'r cyfle i fynychu cyfarfod eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn gynharach yn y mis wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer rhoi dealltwriaeth i ni o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel BGC, y dull yr ydych wedi ei mabwysiadu ar gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn ffordd wahanol.

Fel y byddant eisoes wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy ngwaith fod yn ddefnyddiol i chi, a'r cyddestun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod yn teimlo bod y cysylltu hwn wedi bod o fudd i chi a'i fod wedi rhoi rhyw arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Yn eich BGC ar 5ed Medi, trafodwyd yr amcanion drafft canlynol, y mae fy nghyngor i chi'n seiliedig arno:

- **Newid cadarnhaol: ymrwymiad ar y cyd i greu newid traws-sector:**
  - Rhoi arweinyddiaeth i hwyluso'r newid diwylliannol cyfundrefnol angenrheidiol, a symud tuag at ddulliau newydd o weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
  - Defnyddio'n hasedau a'n hadnoddau mewn dull mwy deallus a chynaliadwy.
  - Cynorthwyo'n trigolion a'n partneriaid i gyfrannu'n llawn i'r Gaerffili a garem.
- **Cychwyn cadarnhaol: rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i genedlaethau'r dyfodol:**
  - Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar er mwyn adeiladu cydnerthedd ar hyd cwrs bywyd a gwella canlyniadau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
  - Creu Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn galluogi gweithredu ar y cyd a fedr leihau ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac adeiladu cydnerthedd mewn plant.
- **Pobl gadarnhaol: grymuso a galluogi ein trigolion i wireddu eu potensial:**
  - Hwyluso'r symudiad tuag at weithio ar y cyd gyda'r pwyslais ar ataliad, er mwyn mynd i'r afael â heriau i iechyd a llesiant yn y dyfodol.



- Datblygu rhaglen gydlynol o wirfoddoli, a'i maximeiddio fel ffordd tuag at lesiant personol a chyflogaeth, yn cynnwys hybu gwirfoddoli corfforaethol.
  - Sefydlu rhaglenni prentisiaethau i bob oed ar draws sefydliadau sy'n aelodau o FGCau ynghyd â phwyntiau mynediad cydlynol.
  - Helpu ein trigolion i feddu'r gallu i reoli eu hanghenion iechyd a'u llesiant hwy eu hunain mewn partneriaeth â gwasanaethau.
- **Mannau cadarnhaol: galluogi ein cymunedau i fod yn gydnherth a chynaliadwy:**
    - Cynorthwyo ein cymunedau mwyaf difreintiedig i fod yn gydnherth, cydlynol a'u galluogi i helpu eu hunain.
    - Amddiffyn, gwella a hybu ein hamgylchedd naturiol a meithrin gweithredu cymunedol ar faterion amgylcheddol.
    - Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i greu cymunedau diogel, hyderus a hybu cydlyniant cymunedol.
    - Cynyddu'r cyfraniad a wneir gan yr amgylchedd i iechyd a llesiant trigolion.
    - Darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol yn agosach at gartrefi pobl.

Deallaf eich bod wedi bod yn gweithio hefyd ar gynllun cyflwyno drafft, yr wyf hefyd wedi ei ddefnyddio i roi'r cyngor hwn i chi ar y modd y gallwch gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft.

Fel y gwyddoch, wrth osod eich amcanion a chymryd camau i gwrdd â hwynt, mae'n rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a maximeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod cenedlaethol. Mae fy nghyngor mewn dwy ran – yn gyntaf fe'i bwriedir i'ch helpu i ystyried sut y gallech gyflawni hyn i gyd yn effeithiol. Yn ail mae'n seiliedig ar eich amcanion drafft ac yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais '[Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)' sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

### ***Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:***

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chmau. Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud beth bynnag. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannau tuag at ein

gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwyllianau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol, a sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Caerffili?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn y ffordd hon yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain fel BGC i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion. Cefais fy nghalonogi i glywed bod rhai ohonoch eisoes yn cynnal y sgysiau hyn yn eich BGC am integreiddio cyllidebau, gwneud y cynllun llesiant yn rhan o'ch 'swydd bob dydd' ac yn ymroi i weithredu gyda'ch gilydd. Mae'n beth da i glywed hyn ac rwy'n cynghori pob BGC bod rhoi'r amser a'r gofod hwn o'r neilltu'n golygu cael trafodaeth ddidwyll am y tensiynau rhwng materion polisi ac arfer presennol o fewn eich sefydliad mewn perthynas â phob amcan. Ond dylai hyn fod yn ffocysu ar weithredu - pa ymagweddau newydd a fyddwch yn eu mabwysiadu gyda'ch gilydd yn y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a maxsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Hoffwn ddeall beth mae pob un o'ch amcanion drafft a phob cam yr ydych yn eu cymryd yn ei olygu i Gaerffili a sut y mae hyn yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol.

Buaswn yn eich cynghori y bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar y camau y byddwch yn eu cymryd? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Mae'r gwaith yr ydych wedi ei gomisiynu gyda BGC Gwent, gobeithio, yn rhoi i chi senarios y dyfodol ar gyfer eich ardal. Gall y rhain fod yn bwerus iawn fel man cychwyn trafodaeth am y cyfleoedd, y peryglon a'r dulliau o liniaru'r peryglon hynny y medrwn eu mabwysiadu ar gyfer yr hirdymor. I drwytho'ch gweithgaredd, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.
- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag



gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwrsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGCau yn archwilio sut y maent yn chwalo cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. Rwy'n cymeradwyo'r amser y mae eich swyddogion cynorthwyol wedi neilltuo ar gyfer gweithio ar draws ardal Gwent ac roeddwn yn falch i glywed am y cydweithio cadarnhaol a'r ymagweddau arbrofol sy'n digwydd fel canlyniad. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Aseidiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalo strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac o bwys mawr, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n magsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwyd chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Ydych chi

wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Gwn eich bod wedi gwneud ymdrech i ennyn ymgyfraniad pobl yn barhaus yn eich amcanion llesiant dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac rwy'n falch i glywed bod hyn yn rhywbeth yr ydych yn cynllunio i barhau i'w wneud. Rwyf yn awyddus i weld ffocws parhaus yn cael ei ddangos ar hyn gan bob BGC, sy'n mynd tu hwnt i'r ymgynghori arferol a'r ymgysylltu ad hoc. Sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i ennyn ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Gwn eich bod yn gweithio'n agos gyda BGC Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a bod hyn wedi bod yn fanteisiol ar gyfer rhannu dysgu. Mae eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyflawni'r lefel hwn o gynnydd wrth asesu llesiant yn eich ardal, drafftio eich amcanion a'ch camau, ond rhaid i mi bwysleisio mai eich arweinyddiaeth chi sy'n ofynnol ar gyfer mabwysiadu dull newydd o weithio.

Mae'r arweinyddiaeth hon a'ch gwaith gyda phartneriaid yn treiddio i mewn i'ch sefydliad ar bob lefel. Mae cynrychiolaeth cyson a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ol o'r BGC yn hollbwysig ar gyfer adeiladu perthynas a chreu gweithgaredd. Mae un o fy awgrymiadau o fewn 'Llesiant yng Nghymru' yn awgrymu bod angen i ni roi'r gorau i edrych ar FGCau fel pwyllgor ffurfiol o dan arweiniad awdurdod lleol, a sicrhau bod aelodau wedi adeiladu perthynas gryfach a gwell dealltwriaeth o ysgogiadau ei gilydd, er mwyn ennill cyd-ddealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau ei gilydd. Mewn rhai ardaloedd, mae cyfarfodydd BGCau yn awr yn sesiynau gweithdy, sy'n cael eu cynnal yng ngweithle gwahanol aelodau o'r sefydliad neu mewn lle sy'n berthnasol i'r pwnc o dan sylw. Mewn rhai ardaloedd, mae rhoi i aelodau BGC amcanion i'w harwain wedi sefydlu mwy o ymrwymiad i'r gwaith. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i chi hefyd ddangos sut mae eich sefydliadau'n cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan nad yw amcanion unigol cyrff cyhoeddus eto wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCau a chyrrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno gweld nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono.

Mae'r modd y mae BGC yn cael ei gefnogi hefyd yn effeithio ar gynllunio llesiant. Er nad yw'n fodel hollgynhwysol, lle mae cefnogaeth yn aml-asiantaeth, mae hyn yn galluogi gwell adnoddau i'r BGC ac, yn anochel, mae hyn yn caniatáu integreiddio haws rhwng sefydliadau, adrannau a materion. Dylech deimlo bod cynllun llesiant y BGC yn eich helpu i integreiddio'ch gwaith a herio arferion presennol o fewn eich adrannau. Mae'r amcanion drafft a'r camau yr ydych wedi eu darparu yn awgrymu bod canolfannau corfforaethol eich sefydliadau'n gweithio mewn dull gwahanol iawn. Felly, er mwyn i chi wir berchenogi'r cynllun hwn a sicrhau bod y camau yr ydych yn eu

cymryd yn cael eu deall a'u gweithredu gan gyrff sy'n aelodau o'r BGC, dylech ystyried trefniadau gwaith mwy clos, fel tîm aml-asiantaeth gydag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol, cyd-leoli a rhannu adnoddau. Mae yna nifer o adnoddau a allai fod o help, megis [Designing Multi-Agency Partnerships and Leading Culture Change](#).

### **Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:**

Mae gosod eich cynllun drafft eisoes wedi manteisio ar nifer o ffynonellau tystiolaeth a'ch gwybodaeth broffesiynol chi eich hunain. Gwn eich bod wedi gwneud llawer o waith i symud o 65 syniad cychwynnol a nodir yn eich asesiad i bedwar amcan drafft. Bwriad y cyngor hwn yw rhoi syniadau i chi, gwybodaeth a chysylltiadau a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Caerffili. Drwy osod eich amcanion drafft yn y modd hwn, roeddwn yn falch i glywed eich bod yn ceisio symud i ffwrdd o drin y pynciau hyn fel rhai ar wahân gan feithrin ymagwedd seiliedig ar asedau. Buaswn yn eich cyngori i barhau gyda'r ffocws hwn ac adeiladu ar ddatblygu'r rhyng-gysylltiadau hyn wrth gytuno ar, a chyflwyno eich camau i gwrdd â'r amcanion hyn.

- **Newid cadarnhaol: ymrwymiad ar y cyd i greu newid traws-sector:**

Ar gyfer pob sector, dylech ystyried beth yw eich rôl a'ch camau gweithredol wrth wneud y newid hwn, fel Prif Weithredwyr, Arweinyddion, Cadeiryddion ac uwch reolwyr. Mae'r amcan hwn yn gofyn am arweinyddiaeth gref, fel y nodais uchod, sy'n treiddio drwy bob un o'ch sefydliadau. I gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, bydd angen i chi fod yn ddewr wrth grynhoi eich adnoddau a newid polisiâu o fewn pob un o'ch sefydliadau. Y saith maes sy'n gofyn am newid yn y Ddeddf: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg yw'r gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwyso'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio. Buaswn yn eich cyngori i herio arferion presennol o fewn y meysydd hyn gan ddefnyddio'r pum dull o weithio wrth gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn.

Fel cyrff cyhoeddus, mae gennych lawer o gyfrifoldebau statudol ac rydych yn darparu nifer mawr iawn o wasanaethau yn ddyddiol i bobl Caerffili. Ni fwriedir i'r Ddeddf fod yn faich ychwanegol, ond yn ddull o facsimeiddio manteision y gweithgareddau hyn. Mae fy nhîm wedi dweud wrthyf sut y mae hyn eisoes yn cael ei wireddu mewn rhai meysydd busnes yng Nghaerffili. Er enghraifft, mae gan y cynllun 'Astudiaeth Lle Dwfn' ar gyfer Parc Lansbury, sy'n creu Clymblaid ar gyfer Newid' ar lefel BGC botensial i fod yn drawsffurfiol yng nghyd-destun llesiant trigolion. Bydd gennyf ddi-ddordeb i weld sut mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio'n ymarferol gan holl aelodau'r BGC ar yr ystâd. Yn ail, mae'r prosiect partneriaeth rhwng Cwmni Gwenyn Cwm Sirhywi Cyf., Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Ysgol Gynradd Ynysddu, lle mae cwch gwenyn yn yr ysgol yn addysgu pobl am bwysigrwydd peillio i'n hamgylchedd, ac yn gwneud mêl lleol, yn fenter syml â ganddi lawer o fanteision. Hefyd, manteisiol iawn yw ymrwymiad y Cyngor i osod paneli solar ar ugain o ysgolion newydd a phrosiect profi cerbydau trydan y Cyngor fel ceir cronfa, a gosodiad pwyntiau gwefru trydanol. Mae'r mathau hyn o gynlluniau'n newid

ymddygiad ac yn herio'r hyn sydd wedi mynd heibio, yn ogystal â darparu gwelliannau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i lesiant pobl.

Wrth osod eich amcanion drafft a'ch camau, mae'n rhaid i chi facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant. Ar gyfer pob amcan, mae'n bwysig i ystyried sut y gallwch gael effaith gadarnhaol ar draws pob nod, fel gyda'r enghreifftiau uchod. Er enghraifft, mae eich cynllun cyflwyno drafft yn cynnwys gweithrediadau o gwmpas caffael ac rwy'n ymwybodol bod y Cyngor yn cymryd rhan yn y gwaith y mae fy swyddfa'n ei wneud gyda Gwerth Cymru i dreialu ymagweddau newydd tuag at gaffael yng nghyd-destun y Ddeddf. Fel y nodwyd gan eich asesiad, mae'r mwyafrif o bobl Caerffili'n cael eu cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu ac mae yna lawer o fusnesau lleol a safleoedd diwydiannol. Sut fedr eich polisiau cyfundrefnol ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy i dyfu? Sut fedr eich caffael hefyd hyrwyddo cydraddoldeb? Sut fedr polisiau ymroi i ennyn twf yr iaith Gymraeg yn yr ardal? Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno mentrau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n macsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod? A sut fedr eich caffael trefniadol fod y gorau posibl yn ei gyfraniad i Gaerffili ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang? Mae eich gweithrediadau drafft yn ymroi i sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau yr ydych yn eu caffael yn gynaliadwy, yn garbon isel ac yn foesebol gyfrifol. Efallai bydd adnoddau [Fforwm ar gyfer y Dyfodol](#) yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

Hefyd, er mai cymharol isel yw maint yr allyriadau y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer ehangach ar allyriadau mewn meysydd megis trafnidiaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. [Yn ddiweddar cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol. Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth [Alwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus garbon niwtral erbyn 2030 ac ysgrifennais atoch yn eich annog i ystyried a chyfrannu cyn y dyddiad cau. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth a Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i: archwilio sut y gall y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ennyn ymgyfraniad pobl wrth gydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithgareddau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag dod hyd yn oed yn waeth.

Mae'n galonogol i weld bod eich cynllun cyflwyno drafft yn ystyried sut y gallwch weithio gyda'ch gilydd i wneud y gorau o'ch asedau. Gyda'ch gilydd, mae gennych lawer o ystâd y sector cyhoeddus, cyfrifoldeb am seilwaith a llais yn y modd y mae adeiladau cyhoeddus yn cael eu hadeiladu a'u hailwampio. Mae yna weithgareddau ymarferol y gallwch eu cyflawni, megis sut yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygu (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol), sut yr ydych yn ailwampio adeiladau, yn gwella, seilwaith a manau agored a fedr gael effaith cadarnhaol ar lesiant.

Mae'r adroddiad 'Closing the Circle' yn adrodd ar yr economi cylchol ac mae adroddiad 'Amgylchedd Cymru' Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector

cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant, ymarferol, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, sy'n magsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac sydd wedi dangos y gall brysuru iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol. Ym mhob un o'r meysydd hyn gall fy swyddfa eich rhoi mewn cysylltiad â'r bobl a'r sefydliadau hyn a fydd efallai yn gallu eich helpu wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog trigolion i gyfrannu at y 'Gaerffili a garem'. Mae pobl yn aml yn teimlo eu bod wedi ei datgysylltu oddi wrth eu hamgylchedd ac yn teimlo'n ddifater tuag at wasanaethau'r ardal. Ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i fod yn eiddo i'r gymuned ac, mewn llawer achos, mae hyn wedi cynyddu cydlynid cymunedau a llesiant y bobl sy'n ymgysylltu. Sut fedrwyd chi wneud gwell defnydd o'r ystâd gyhoeddus gyfunol sydd gennych yng Nghaerffili? Os ydyw arwahanrwydd a thrafnidiaeth yn fater o bwys, sut y gellir trefnu darpariaeth mewn dull gwahanol? Mae gan Weithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru rai enghreifftiau y byddwch efallai yn dymuno eu harchwilio, ond mae yna lawer o sefydliadau sy'n annog gwneud gwell defnydd o dir ac asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis [Shared Assets, Nurture Development](#) a [Locality](#), gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i greu newid cyfundrefnol drwy eu hamcanion, yn cynnwys Torfaen, sy'n edrych ar ddatblygu cyfundrefnol yng nghyd-destun y Ddeddf, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ac efallai y byddwch yn dymuno ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy i rannu syniadau a dysg. Eto, mae fy swyddfa yn hapus i'ch cysylltu os ydyw hyn yn ddefnyddiol.

- **Cychwyn cadarnhaol: rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i genedlaethau'r dyfodol.**

Am bob un o'ch amcanion drafft a'r camau yr ydych yn ymroi i'w cymryd, buaswn yn eich cyngori i fod yn glir am beth a olyga hyn i Gaerffili yn eich cynllunio llesiant. Pa dystiolaeth leol ydych chi wedi ei defnyddio (neu'n mynd i'w defnyddio) i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus yng Nghaerffili? Pa wasanaethau lleol fydd yn cael eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddiad i'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn? Sut fyddai mabwysiadu ymagwedd wybodus tuag at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gweithio mewn gwirionedd yn eich sefydliadau?

Ydych chi wedi ystyried tueddiadau hirdymor yr amcan hwn? Byddai sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru'n awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y math iawn o gymorth ar yr adeg gywir, ac mae cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf.



Mae costau'r cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr: (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Atal sydd wrth wraidd yr amcan hwn a buaswn yn cynghori eich sefydliadau i gydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau.

Fel gwasanaethau cyhoeddus rydym yn aml yn trin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig, yn hytrach na'r achosion sydd wrth eu gwraidd. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i ddelio â materion craidd. Yn y modd hwn, mae delio â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymwneud llawn cymaint â chael gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac adnabod ble mae wedi digwydd ag y mae i sicrhau bod y gwasanaethau mae teuluoedd yn eu cyrchu yn integredig. Yn y camau yr ydych yn eu cymryd, mae'n bwysig i adolygu mentrau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgyssylltiedig ac yn ymroi i wella sefyllfaoedd ar gyfer teuluoedd a rhieni'r dyfodol er mwyn atal y cylch rhag parhau i'r genhedlaeth nesaf.

Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gallai BGCau rannu arfer, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi trafod blynyddoedd cynnar, a phlant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn eu hamcanion drafft a'u camau.

Rwy'n cynghori bod deall profiadau bywyd pobl sydd wedi dioddef trawma yn eu bywydau hefyd yn rhoi persbectif ffres ar lunio gwasanaethau ataliol. Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaethau'n aml heb gael eu gosod mewn ffordd a fyddai'n cyflawni'r amcan hwn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', un sy'n camddefnyddio deunyddiau', 'tenant trafferthus' sy'n aml yn creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael cyfle cyfartal. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu.

Bwriad y pum dull o weithio yw herio'r modd yr ydym ar hyn o bryd yn gwneud pethau a rhoi lens wahanol fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl i herio'r system yn ganolog oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y medrwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon 'Pam nad yw pobl yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebwr gan bobl wrth iddynt geisio goresgyn anghydraddoldeb ac; mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon tuag at fywydau pobl.

Cefais fy nghalonogi i weld bod eich cynllun cyflawni drafft ar gyfer yr amcan hwn yn ehangach na chanolbwyntio'n unig ar 'iechyd'. Gwelir beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar bywyd yn aml fel 'mater iechyd' ond buaswn yn eich cynghori i gymryd camau ar unwaith tuag integreiddio gwasanaethau yn well, cyd-leoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r gymuned honno.

Mae rhai teuluoedd yn cyrchu gwasanaethau a byddai integreiddio'r darpariaethau hyn yn well yn eu helpu i helpu eu hunain. Mae bod yn riant a'r angen am well cymorth wedi ei fynegi nifer o weithiau yn eich ymgysylltiad ar lesiant. Fel y cyfryw, nid eich cyfrifoldeb chi yn unig yw galluogi pobl i gael cychwyn iach mewn bywyd, ond cyfrifoldeb y teuluoedd lle mae plant yn tyfu i fyny a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn ogystal â'r teuluoedd y maent hwy eu hunain wedyn yn rhoi cychwyn iddynt. Felly, wrth ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, gallai gwaith y Sefydliad Economaidd Newydd ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, gan ei fod yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol. Buaswn yn eich cynghori i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn a'r manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i benderfynu pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Canolfan Iechyd a Chynaliadwydd' i gyd-drefnu eu gwaith hwy eu hunain o amgylch y Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallai cysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth fod yn fanteisiol i chi.

Mae llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Er enghraifft, darganfu'r London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Mae eich asesiad llesiant yn amlygu pocedi o amddifadedd eithafol yng Nghwm Rhymni Uchaf ac mewn rhannau eraill o'r sir. Sut y gellir ffocysu, yn arbennig, ar y cymunedau hyn? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw, eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Yn ogystal ag incwm, gwyddom fod iechyd mamau a theuluoedd yn cael effaith fawr ar fywyd plentyn, sy'n cysylltu â'ch amcan arall ar 'bobl positif'. Thema gyffredinol a ddaeth i'r amlwg o'ch asesiad llesiant oedd y symudiad i ffwrdd oddi wrth salwch meddwl a salwch corfforol a newid cynyddol mewn ymddygiad.

Mae rhwng 10% ac 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd o fewn blwyddyn i'r enedigaeth. Mae'r anhwylder hwn yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn y flwyddyn yn dilyn genedigaeth. Er gwaethaf hyn, mae menywod yn oddeutu hanner y DU heb fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac mewn mannau daearyddol eraill mae gwasanaethau'n annigonol. Mae ystyried effaith gwasanaethau fel y rhain ar deuluoedd ifanc yn bwysig os yr ydych i fabwysiadu

ymagwedd traws-sector. Mae'r prosiect '[Mums and Babies in Mind](#)' wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol i greu llwybr ar draws sectorau sy'n darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i fenywod beichiog a mamau newydd.

Mae'r mwyafrif o FGCau wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynnar, gan roi cychwyn da mewn bywyd i blant ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cynnwys Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych. Mae Alyson Francis a minnau hefyd ar [panel gwefinar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) ar y 7fed Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

- **Pobl gadarnhaol: grymuso a galluogi ein trigolion i wireddu eu potensial**

Mae galluogi'ch trigolion i wireddu eu potensial yn gofyn am adeiladu hyder a gallu mewn cymunedau. Mae'r amcan hwn yn ymwneud ac iechyd, addysg, cyflogaeth, bywyd cymunedol ac amgylchedd naturiol ac adeiledig pobl. Fel yr ydych wedi cychwyn ei wneud yn eich cynllun cyflwyno, dylech ystyried pa gamau cadarnhaol ystyrion y gallwch eu cymryd i helpu trigolion i sylweddoli eu cryfderau hwy eu hunain, a ddylai fod yn ymwneud â gweithredu yn hytrach nag ysgrifennu strategaethau a biwrocratiaeth.

Ar gyfer pob un o'r camau y byddwch yn penderfynu eu cymryd, mae gen i ddiddordeb yn rhesymeg y modd yr ydych wedi defnyddio'r pum dull o weithio i lunio eich dull o feddwl a pha beth y bwriedir i ganlyniad y camau hyn fod. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod eisiau i'r amcan hwn sbarduno symudiad tuag at atal ac rwy'n eich cynghori i ennyn cymaint â phosibl o ymgyfraniad pobl wrth geisio deall sut fedrai'r amcan hwn gael ei wireddu.

Mae ail-bwrpasu adnoddau i wrando mewn gwirionedd ar, ac ennyn ymgyfraniad pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig eich sir yn bwysig ar gyfer ennill dealltwriaeth o'r modd y maent hwy yn canfod asedau a diffygion eu cymuned. Beth yw'r rhwystrau presennol sy'n eu hatal rhag mynd i'r afael a'u hanghenion iechyd a llesiant? Sut fedr gwasanaethau gydweithio gyda gwahanol grwpiau i leddfu'r rhwystrau hyn? Mae hwn yn gyfle i ddefnyddio'r diffiniadau o'r saith nod llesiant, wrth archwilio'r buddiannau niferus y gallech eu sicrhau i lesiant.

Er enghraifft, dim ond mewn pethau sydd yn hwyl ac o fudd iddynt hwy y bydd pobl yn dymuno ymgyfrannu. Sut fedr wch chi ddefnyddio treftadaeth, iaith, traddodiadau ac amgylchedd naturiol Caerffili i alluogi pobl i gwrdd â'u potensial? Mae yna rai enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnorthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis Siediau Dynion Cymru, sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo. Mae [Gofal Solfach](#) hefyd yn dangos mentrau arloesol sy'n ffocysu ar anghenion y gymuned yn gyntaf ac yn integreiddio gwasanaethau i wella llesiant. Yn ddiweddar ysgrifennodd Comisiynydd Pobl Hŷn atoch fel BGC, gan amlinellu rhai o'r ymagweddau y gall y byddwch yn dymuno eu mabwysiadu wrth gydnabod y rhan hon o'ch poblogaeth.

Darganfu eich asesiad llesiant bod pobl yn cysylltu'r iaith Gymraeg yn ddiwahân â threftadaeth yr ardal a'i bod yn bwysig ar gyfer peri i bobl deimlo'u bod yn perthyn, i'w hunaniaeth a'u rhagolygon cyflogaeth. Gyda'r targed

hirdymor cenedlaethol a nodir yn Cymraeg 2050, byddai cyfrannu i'r nod hwn drwy ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, annog twf yr iaith a'i hybu fel sgil bywyd yn helpu pobl i gyrraedd eu potensial. Mae tîm Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda fy swyddfa ar sut y gallent gynorthwyo BGCau yn eu rôl - os gwelwch yn dda gadewch i mi wybod os hoffech gael rhagor o fanylion.

Wrth gyfrannu i Gymru o ddiwydiant bywiog, gallech ddarganfod bod strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru'n ddefnyddiol, sefydliad sy'n amlinellu rhai o fanteision gweithgaredd creadigol i iechyd, cydlyniant a sgiliau'r boblogaeth. Fel mewn manau eraill yng Nghymru, nododd eich asesiad llesiant nifer o dueddiadau trawiadol mewn dewisiadau ffordd o fwy sy'n gwaethygu. Mae eich asesiad yn nodi'r olygfa gelfyddydol a diwylliannol yng Nghaerffili, sydd i'w ddathlu ac a fedr helpu llawer o bobl i adeiladu gallu, hyder a chyrraedd eu potensial. Mae'r Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol i mewn i ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le.

Er enghraifft mae newid ymddygiad yn aml yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd. Er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed '[Behaviour Change is a Team Sport](#)' bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru'n enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant.

Sut mae hyn yn berthnasol i'ch amcanion eraill a'ch gweledigaeth gyffredinol? Pa weithgareddau diwylliannol fedr annog plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedrai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i reoli eu hiechyd? Mae hwn yn gyfle i wella mynediad i weithgareddau diwylliannol a hybu treftadaeth, y defnydd o'r Gymraeg ac annog pobl i ddod at ei gilydd ynghylch achos lleol, megis eu hamgylchedd. Gallai cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, eich helpu i weld sut y gallai eich camau i gwrdd â'r amcan hwn facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Mae eich asesiad yn nod bod cymwysterau addysgol yn gwella. Hefyd, mae nifer mawr o bobl yn y sir heb unrhyw gymwysterau. Tra bo darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a datblygu'n beth da, galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn yw'r peth pwysicaf. Felly buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i'r data yma a deall yn llwyr pam nad yw lefelau cymwysterau'n cyflymu'n ddigonol, cyn penderfynu ar gamau'n ymwneud â sut y gallech gwrdd â'r amcan drafft hwn. Gofynnwch i chi eich hunain, beth fyddai mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth i ddysgu a datblygiad pobl yng Nghaerffili drwy gydol eu bywydau? Beth arall sy'n effeithio ar gyfleoedd pobl yn eu bywydau y gallech chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, eu hatal? Gallai astudiaeth a wnaed gan sefydliad yn Newcastle fod o ddiddordeb i chi yn hyn o beth. Sefydliad ddim-am-elw yw Social Finance sy'n arbenigo mewn dadansoddiad trwyadl ac sy'n edrych ar elw cymdeithasol buddsoddi; cawsant eu comisiynu gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â phroblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na

Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi dod o blith y 25% o rai 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwiliad bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod edrych ar y mater mewn dull mwy holistig yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd fel BGC i wireddu eich amcanion.

Archwiliodd eich asesiad llesiant y tirlun economaidd presennol yng Nghaerffili gan nodi asedau, megis bod wedi eich lleoli'n strategol rhwng Caerdydd a'r Cymoedd, gyda chysylltiadau heolydd i rannau eraill o Gymru, Lloegr ac Iwerddon; risgiau megis Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd; a chyfleodd, megis y Ddinas-ranbarth a gwaith Tasglu'r Cymoedd. Fel gyda'ch amcanion eraill, mae bod yn uchelgeisiol yn y rôl y gallech ei chwarae fel sefydliadau wrth weithredu a dylanwadu ar eraill yn bwysig wrth gytuno ar y camau y byddwch yn eu cymryd. Mae eich cynllun cyflawni drafft wedi nodi rhai gweithgareddau cydweithredol y gallech eu gwireddu yn awr, a fyddai'n cychwyn cael effaith cadarnhaol ar lesiant, megis rhaglenni prentisiaethau i bobl o bob oed a chyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol. Ar gyfer pob un o'r camau hyn defnyddiwch y diffiniadau o nodau llesiant wrth feddwl sut y gallwch wneud rhywbeth gwahanol gan gael yr effaith mwyaf posibl, ynghyd ag integreiddiad ar draws llawer o'r camau drafft, Er enghraifft, sut fedr wch chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnherthedd yr amgylchedd naturiol? Pa gynlluniau gwirfoddoli fedrech chi eu helpu i greu Caerffili fwy cyfrifol yn fyd-eang? Sut fedr pobl annog cyfartaledd drwy eu gwirfoddoli a chydlyniant o fewn rhai o gymunedau Caerffili?

Ydych chi wedi meddwl am dirlun economaidd hirdymor Caerffili? Pa sgiliau a allai fod eu hangen ar bobl i wireddu eu potensial? Mae dyfodol cyflogaeth a'r modd yr ydym yn gweld 'gwaith' yn newid; mae'r adroddiad Dyfodol Gwaith yn rhagweld y bydd 65 y cant o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Ac yn ôl McKinsey, gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl ar hyn o bryd i'w cyflawni. Nododd eich asesiad llesiant bod y mwyafrif o boblogaeth Caerffili'n cael eu cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu - diwydiant a fydd yn gweld mwy o awtomeiddio yn y dyfodol. Sut ydych chi wedi ystyried effaith llawer o'r rolau hyn a fydd yn cael eu disodli gan awtomeiddio? Sut fedr wch chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, o amgylch gofal cymdeithasol, diwydiannau manwerthu a bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn dda i'r economi lleol? Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree'n amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, gan gryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth osod eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Yn ôl hyn i gyd, mae'n amlwg y bydd y sgiliau a fydd arnom eu hangen yn y dyfodol yn wahanol i'r rhai yr ydym eu hangen yn awr. Fel y dyfynnwyd yn ddiweddar ym mlog Fforwm Economaidd y Byd:

“Credaf mewn dyfodol lle mae addysg wedi ei bwriadu nid i baratoi ar gyfer swydd arall ddiwerth, ond ar gyfer bywyd sy'n cael ei fyw yn dda.” Pa sgiliau bywyd allai fod eu hangen ar eich plant i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol yng Nghaerffili? Awgryma'r adroddiad Dyfodol Gwaith y bydd gwaith yn seiliedig ar brosiectau yn dod yn fwy cyffredin, gyda sgiliau'n ymwneud â chreadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach na gwybodaeth benodol.

Fel y nodwyd gan eich arweinyddion busnes lleol wrth ymateb i'ch asesiad llesiant, mae angen creu cysylltiadau rhwng cwricwlwm ysgolion a sgiliau'r dyfodol os ydyw pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer y gweithle ac os ydyw busnesau'n mynd i ddod o hyd i bobl leol â'r sgiliau iawn, o unrhyw oed. Adleisiodd Fforwm Ieuenctid Caerffili'r sylwadau hyn, sydd yn cyd-fynd ag adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth y Tywysog, Results of Life, a archwiliodd sut mae gwaith tîm, cyfathrebu a hyder llawn mor bwysig i bobl ifanc sy'n cyrchu'r gweithle.

Wrth feddwl am y sgiliau hirdymor y bydd eu hangen, â phwy mae angen i chi gydweithio i greu addysg o safon uchel a'r sgiliau angenrheidiol? Sut fedrwch chi facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod? Er enghraifft, mae ysgolion yn aml wrth galon cymuned gydlynol a gall y pecyn iawn o sgiliau arwain at gymdeithas llawer mwy cyfartal. Sut mae ysgolion a Choleg y Cymoedd yn cydweithio gyda'r BGC ar y gwaith hwn? Mae parhau sicrhau ymglyfraniad y Fforwm Ieuenctid a busnesau lleol hefyd yn eich helpu i ddeall y mater. Sut fedrwch chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol, annog gwell dysgu i bobl o bob oed a chysylltu'r rhain â chyfleoedd prentisiaeth?

Rwyf wedi siarad cyn hyn am y cyfle a gyflwynir gan Ddinas-ranbarth Caerdydd. Mae yna ddiddordeb amlwg gan y BGC ynghylch manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y rhanbarth a buaswn yn eich cynghori eich bod yn dylanwadu ar eich trafodaethau presennol gan gadw mewn golwg eich amcanion drafft ar gyfer BGC Caerffili. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Buaswn felly'n eich cynghori i annog bod gwerth o fewn y Ddinas-Ranbarth yn cael ei roi nid yn unig ar dwf economaidd ond ar ddatblygu patrymau cyflogaeth a gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi yn y cymunedau mwyaf amddifad i annog sgiliau mewn technoleg, creadigrwydd a datrys-problemau er mwyn torri patrymau tlodi sy'n pontio'r cenedlaethau. Yn ddiweddar gwneuthum sylw ar waith dinas-ranbarthau mewn ymateb i adroddiad diweddar Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "[Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy](#)."

Mae nifer o FGau yn drafftio amcanion i wella atal, i alluogi pobl i fod yn fwy cyfrifol am eu hiechyd, cyflwyno newid ymddygiad ac ymroi i helpu pobl i gyrraedd eu potensial; yn cynnwys Cwm Taf; Sir Gaerfyrddin; Ceredigion; Sir Benfro; Conwy/Sir Ddinbych a Sir Fynwy.

- **Mannau cadarnhaol: galluogi ein cymunedau i fod yn gydnherth a chynaliadwy.**

Fel gyda'ch holl amcanion, mae'r amcan hwn yn cysylltu ag eraill, wrth alluogi trigolion i gyrraedd eu llawn botensial, adeiladu cydnerthedd mewn teuluoedd a rhoi i genedlaethau'r dyfodol y cychwyn gorau mewn bywyd a sylweddoli eich ymrwymiad chi eich hunan. a rennir, i newid ar draws sectorau.

Fel y nodwyd yn eich asesiad drafft, dywedodd pobl o bob oed bod ysbryd cymunedol Caerffili'n ased mawr ac yn un sydd ag angen ei 'ddwyn yn ôl'. Fel y nodwyd yn gywir gennych, dylid hefyd ddathlu amgylchedd naturiol ac adeiledig y sir i helpu pobl i wella'u llesiant. Er i chi nodi nifer o ardaloedd yng Nghaerffili sy'n ddifreintiedig, anaml y mae cymunedau sy'n cael eu brandio fel rhai 'amddifad' neu 'mewn tloedi' gan ystadegau yn diffinio eu hunain yn y dull hwnnw. Wrth ddarllen yr asesiadau, roedd llawer o bobl yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd naturiol, eu hadeiladau cymunedol a'r modd y mae pobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd. Felly, mae ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn ymdrin â'r amcan hwn yn hollbwysig, gan fod angen i chi osgoi cymylu'r dulliau gorau o 'ddatrys' materion drwy eich rhagdybiaethau chi eich hunain. Bydd nodi'r asedau yn yr ardaloedd hyn a gweithio gyda phobl leol wrth benderfynu sut i adeiladu arnynt yn helpu i ddod o hyd i atebion gyda'ch gilydd i leihau anghydraddoldeb.

Rydych wedi gwneud argraff fawr arnaf drwy'r ystod eang o bobl yr ydych wedi ennyn eu hymgyfraniad drwy gydol eich asesiad llesiant, ac wedi hynny yn eich cynllunio. Mae'n galonogol i weld eich bod wedi ennyn ymgyfraniad pobl mewn gwahanol ffyrdd, priodol i'w diddordebau a lefelau eu hymrwymiad i'r BGC ac rwyf wedi dweud wrth bob BGC fy mod yn disgwyl gweld hyn yn cael i gryfhau wrth i chi ddatblygu eich camau a chychwyn cyflwyno yn erbyn eich cynllun. Rwyf wedi argymhell bod BGCau yn twrio'n ddyfnach i mewn i ddata i drwytho eich cynlluniau llesiant a chymryd amser i ddeall yn well eich cymunedau, gan ddefnyddio profiadau bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yno bob dydd. Os ydych chi wedi ymrwymo i hyn, ail-bwrpaswch eich adnoddau i wneud mwy o waith yn eich cymunedau, i ddod i adnabod lle fel mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod ganddod i adnabod arweinyddion y gymuned a chysylltwyr. Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) a gall Cyfranogiad Cymru gynorthwyo eich swyddogion i ennill sgiliau hollbwysig ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymddiddori'n unig mewn ymgyfrannu yn rhywbeth sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, eu teuluoedd neu'r man lle maent y treulio eu hamser, ac yn aml gall hyn arwain at lawer gwell canlyniadau - fel y dangoswyd gan y gwaith a wneir gan 'Nurture Development' ynghylch Datblygiad Cymunedol Seiliedig ar Asedau. Gallai [Rhwydwaith Cydgynyrchu Cymru](#) eich helpu i adnabod ac ennyn ymgysylltiad arweinyddion cymunedol a fedr eich helpu i gyflwyno manteision i'r gymuned. Mae astudiaeth Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru 'Lle Dwfn' yn Nhredeg ar rhoi tystiolaeth ar sut y gall dealltwriaeth o le gael manteision niferus ar lesiant ac rydych chi'n cychwyn ar ganlyniadau eich astudiaeth chi eich hunan 'Lle Dwfn' ym Mharc Lansbury, â'r potensial i greu newid gwirioneddol.

Ydych chi hefyd wedi ystyried pa fath o newidiadau sydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau cyfundrefnol a'ch polisiâu i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol yn y dyfodol? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil bod plant rhwng 5 a 16 mlwydd oed yn gwario, ar gyfartaledd, chwe awr a hanner o flaen sgrin yn ddyddiol; 28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion; 43% o

bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol; ac yn ôl arolwg ONS 2017, 87% o oedolion yng Nghymru, yn ddiweddar, wedi defnyddio'r rhyngwrwyd (hynny yw yn ystod y tri mis diwethaf). Er bod rhai pobl ar hyn o bryd heb fod ar-lein, a bod angen amlwg am ymagwedd wedi ei theilwra, mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na bod yn dasg ychwanegol iddynt.

Bydd eich tîm yn ymwybodol o "Sir Fynwy Agored", enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Yn ogystal ag ysbryd cymunedol cryf, nodwyd yr amgylchedd naturiol fel ased rhyfeddol drwy gydol eich asesiad llesiant. Gyda dros 80% o'r fwrdeistref sirol yn cael ei ystyried fel 'cefn gwlad', mae mannau agored gwyrdd eich ardal yn ffactor pwysig yn llesiant pobl. Gyda llawer o'ch tir yn cael ei gynnal gan ffermwyr neu fusnesau ffermio, mae gan eich amgylchedd naturiol hefyd rôl economaidd bwysig i'w chwarae a bydd cydweithio gyda'r busnesau hyn wrth benderfynu pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn yn bwysig ar gyfer amddiffyn a gwella'r tir ac atal lleihad mewn bioamrywiaeth a cholli cynefin (a nodir gan eich asesiad fel datblygiad sy'n digwydd yn bennaf oherwydd datblygu a rheoli tir).

Cefais fy nghalonogi hefyd i weld eich bod yn ystyried sut y gall cymunedau lleol greu amgylchedd mwy cydnherth drwy berchenogi mwy ohono, ond nid ydych ar hyn o bryd yn dangos ystyriaeth amlwg o effeithiau hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn dod â pheryglon arbennig i'ch ardal.

Rwy'n eich annog i ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar Gaerffili, fel ardal â 12 ardal gymunedol mewn perygl mawr o ddioddef llifogydd, gydag effeithiau negyddol wedi eu nodi ar ansawdd dŵr yn ystod tywydd garw. Lllynedd cafodd cartrefi a busnesau eu heffeithio gan lifogydd ac mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar lesiant pobl am amser hir yn dilyn y digwyddiad. Disgwylir i niwed blynyddol i eiddo preswyl fod yn £22 miliwn, felly mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau yn hollbwysig wrth benderfynu sut i'w hatal.

Gallai'r rhagolygon hirdymor mewn rhai cymunedau olygu y gallent gollu mynediad i gyflenwadau dŵr ffres gan fethu gadael oherwydd tywydd eithafol. Mae llawer o bobl yng Nghaerffili yn dibynnu ar eu hamgylchedd am incwm, bwyd, dŵr a gweithgareddau oriau hamdden, a chaiff adnoddau megis coed eu defnyddio gan bobl ar draws Cymru. Yn y dyfodol, mae tywydd eithafol yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio ac sy'n effeithio wedi hynny ar amaeth. Gan fod dros 70% o'ch tir naill ai'n goedwigaeth neu'n cael ei ffermio, ill dau yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tywydd, sut ydych chi'n ystyried effaith economaidd posibl newid yn yr hinsawdd ar ffermio? Os yr ydych yn bwriadu defnyddio eich adnoddau naturiol i elwa'n economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut fedwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu eich gweithrediadau ataliol i amddiffyn amaeth, cyflenwadau dŵr a thrafnidiaeth ar adegau o dywydd eithafol? Mae adroddiad diweddar Zero



Carbon Britain, 'Making it Happen' yn nodi ein bod i gyd yn gyfrifol am genedlaethau'r dyfodol ac y dylem weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd.

Gall ennyn ymgyfraniad pobl yn y gwaith o redeg eu cymuned gael effaith cadarnhaol ar wella canfyddiadau (a realiti) diogelwch cymunedau a helpu i wneud y gymuned yn fwy cydnerth. Mae gan NESTA ganllaw ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw i leihau eu hól-troed carbon. Mae prosiectau megis 'GlawLif' Dŵr Cymru yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd ac mae enghraifft eithafol yn cynnwys Ynys Eigg yn yr Alban, lle mae'r gymuned yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Buaswn yn eich annog i ddefnyddio Cynghorau Tref a Chymuned fel ased, gan fod gweithio gyda chynghorau cymuned, y trydydd sector a rhwydweithiau eraill yn eich helpu i ddeall y ffordd orau o ennyn ymgyfylliad pobl ac annog newid mewn ymddygiad wedi ei ffocysu ar le. Cynhyrchodd y CGGC wybodaeth ehangach ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rhan wrth gyfrannu i'r Ddeddf, yn cynnwys adnoddau ar y saith nod llesiant.

Yn unol â'ch amcan drafft i fabwysiadu newid traws-sector yn eich gwaith fel BGC, dylech hefyd ystyried eich rolau chi eich hunian fel sefydliadau wrth ddatblygu cydnerthedd a dod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang. Mae'r DU wedi ymrwmo i gael dim allyriadau erbyn 2050 ac mae pob Llywodraeth yng Nghymru wedi ymrwmo i greu mwy o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad 'Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu adroddiad ar 'A Smart Energy Future for Rural Areas' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Efallai y byddwch o'r farn bod y seminar hwn ar Wasanaeth Ymchwil Llywodraeth a Chymdeithas Ddysgedig Cymru yn darparu mewnwelediadau oddi wrth arbenigwyr ynni mwyaf blaengar Cymru a'u meddyliau hwy ar ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bydd prif seminar Fforwm Polisi Cymru'n digwydd ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda'r ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'n sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

BGCau eraill sy'n drafftio amcanion o gwmpas cynaliadwyedd, cydlyniant a chydnerthedd yw Ceredigion, Conwy/Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin.

**Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgyngori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.**

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maccsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

adborth oddi wrthy ch, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Caerffili, ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales